



Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg

Cylch Gorchwyl

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg	Dyddiad: Ionawr 2023	Statws: Cymeradwywyd
Awdur: N Kingham	Fersiwn flaenorol: Gorffennaf 2022	Dyddiad adolygu: Ionawr 2025

CYFLWYNIAD

Cafodd y ddogfen yma ei llunio yn unol â'r canllawiau statudol o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Adrannau 134-138).

Bwrdd Cwm Taf Morgannwg yw'r bartneriaeth statudol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl ledled Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful.

Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod pobl o bob oed, sy'n byw yn y rhanbarth, yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn golygu atal achosion o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae cadw plant ac oedolion sydd efallai ag anghenion gofal a chymorth yn ddiogel, yn gyfrifoldeb i bawb. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel yn y cartref, y gymuned, yr ysgol, y gweithle neu unrhyw le arall.

AMCANION A CHYFRIFOLDEBAU

Dyma amcanion Bwrdd Diogelu Cwm Taf:

(a) Diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl ac sy'n cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso, neu sydd mewn perygl o brofi hynny

(b) Atal y plant, pobl ifainc ac oedolion hynny rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso yn y lle cyntaf

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol i herio asiantaethau perthnasol fel bod:

- mesurau effeithiol ar waith i amddiffyn pobl cael eu niwedio neu a allai fod mewn perygl o niwed
- asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau diogelu a rhannu gwybodaeth

SWYDDOGAETHAU BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG

Mae gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg gyfrifoldeb statudol i roi'r swyddogaethau craidd yma ar waith wrth weithredu ei amcanion. Mae rhai o'r swyddogaethau yma'n cael eu dyrannu i Is-Grwpiau a Phwyllgorau'r Bwrdd i'w gweithredu.

- Cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol yn cael eu monitro ac yn parhau i fod yn addas i'r diben, drwy ymgysylltu â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu eraill. Cyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i gydlynu'r hyn sy'n cael ei wneud gan bartneriaid a sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli gan y Bwrdd at ddibenion amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl ac atal cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed i blant, pobl ifainc ac oedolion

- Codi ymwybyddiaeth ledled ardal y Bwrdd o'i amcanion i amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl, a'u hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill, ac i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut bydd modd cyflawni hyn
- Sicrhau bod plant, pobl ifainc ac oedolion yn cael y cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd, o leiaf unwaith y flwyddyn
- Adolygu effeithiolrwydd y mesurau sydd ar waith gan bartneriaid y Bwrdd Diogelu a'r sefydliadau sy'n cael eu cynrhychioli gan y Bwrdd. Ymgymryd â'r gwaith yma mewn perthynas â sefydliadau eraill sydd â chyfrifoldebau diogelu yn ardal y Bwrdd hefyd, i roi amcanion y Bwrdd ar waith, p'un a bod hynny ar y cyd neu'n unigol, ac i wneud pa argymhellion bynnag mae o'r farn sy'n addas yng ngoleuni adolygiad o'r fath
- Llunio fframwaith cyflawniad amlasiantaeth sy'n dangos effeithiolrwydd diogelu ar draws yr holl asiantaethau ac sy'n caniatáu craffu a her effeithiol
- Cynnal adolygiadau ymarfer oedolion a phlant, archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau fel sy'n ofynnol yn unol â'i amcanion
- Rheadru gwybodaeth am arfer gorau a dysgu sy'n deillio o adolygiadau. Rhannu gwybodaeth gydag aelodau o'r Bwrdd, Byrddau Diogelu eraill, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a phlant, pobl ifainc ac oedolion sy'n cael eu heffeithio neu a all gael eu heffeithio gan weithrediadau swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu. Nodi, archwilio ac ymateb i faterion sy'n codi ac yn effeithio ar gyflawni amcanion y Bwrdd
- Dangos prawf bod yr hyn a ddysgwyd o adolygiadau wedi arwain at welliannau ymarfer
- Hwyluso gwaith ymchwil i amddiffyn ac atal cam-drin ac esgeuluso'r plant, y pobl ifainc a'r oedolion hynny sydd mewn perygl o niwed
- Adolygu anghenion hyfforddi yr ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn pennu hyfforddiant priodol. Cyflwyno hyfforddiant a sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu ar y cyd rhwng asiantaethau perthnasol neu ar sail sefydliadau unigol i helpu i amddiffyn ac atal plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- Cydweithredu ag un neu ragor o Fyrddau eraill neu sefydliadau tebyg eraill yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, neu awdurdodaeth arall, lle mae'r Bwrdd o'r farn y bydd hynny'n helpu i gyflawni ei amcanion
- Ceisio cyngor neu wybodaeth arbenigol lle mae'r Bwrdd o'r farn bod hynny'n berthnasol i'w gynorthwyo i roi ei amcanion ar waith
- Ymateb i unrhyw hysbysiad i'r Bwrdd mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau

- Gweithredu mewn unrhyw ffordd arall sy'n hwyluso'r Bwrdd i gyflawni ei amcanion, neu sy'n cyflwyno'r amodau cywir i wneud hynny

CYFARFODYDD BWRDD DIOGELU CWM TAF MORGANNWG

Bydd o leiaf pedwar cyfarfod Bwrdd Diolgeu Cwm Taf Morgannwg yn cael ei gynnal bob blwyddyn, hynny yw, un bob chwarter.

Cworwm

Er mwyn i ofynion cworwm gael eu bodloni, rhaid bod cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a phob Awdurdod Lleol yn bresennol yn y cyfarfod. Serch hynny, bydd y Cadeirydd yn defnyddio'i disgresiwn o ran sut y bydd penderfyniad yn cael ei ddilysu.

Trefniadau cadeirio

Mae tri Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u penodi'n Gyd-Gadeiryddion Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a bydd pob un yn ei dro yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd bob yn ail flwyddyn.

Bydd y Cadeirydd yn gweithio'n agos gyda Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a Chadeiryddion y Pwyllgor Gweithredu er mwyn dod i gonsensws ynglŷn â blaenoriaethau'r Bwrdd, yn ogystal â pharhau â gwaith gweithredol y Bwrdd.

Cofnod o Aelodaeth y Bwrdd

Bydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn sicrhau bod rhestr o'r aelodau cyfredol yn cael ei chadw. Bydd presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn cael ei fonitro.

Bydd pob person newydd sy'n cael ei apwyntio i'r Bwrdd yn derbyn datganiad o ddisgwyliadau'r Bwrdd ynghyd â'i ddisgwyliadau o ran ymroddaid. Bydd swyddogaethau a threfnau rheoli'r bwrdd hefyd yn cael eu cyflwyno.

AELODAETH

Partner Arweiniol y Bwrdd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 sy'n rhagnodi'r canlynol yn bartner Bwrdd Diogelu:

- yr awdurdodau lleol
- prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu, y mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn
- ardal y Bwrdd Diogelu
- y Bwrdd Iechyd Lleol
- ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal y Bwrdd Diogelu;
- y Gwasanaethau Prawf
- yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni

- swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 mewn perthynas â Chymru;

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Bwrdd yn cynnwys personau neu gyrff eraill sy'n arfer swyddogaethau neu sy'n ymwneud â gweithgareddau mewn perthynas â phlant neu oedolion mewn perygl.

Os yw'n dymuno, mae modd i Fwrdd Diogelu Cwm Taf gyfethol aelodau ychwanegol o sefydliadau eraill. Byddai modd i'r rhain fod yn barhaol neu dros dro, yn ôl y galw.

Bydd aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cael ei wahodd i fynd i gyfarfodydd y Bwrdd ond fydd yr unigolyn ddim yn cymryd rhan mewn unrhyw bleidleisio na phenderfyniadau.

Mae rhestr o aelodau wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

CYFRIFOLDEB AELODAU O'R BWRDD

Mae gan bob asiantaeth sy'n aelod o Fyrddau Diogelu Cwm Taf Morgannwg (CTMSB) gyfrifoldeb i hyrwyddo gweithrediad effeithiol y Bwrdd. Mae'n ofynnol felly i bob asiantaeth wneud ymrwymiad ffurfiol i waith y Bwrdd er mwyn cyflawni'i flaenoriaethau.

Bydd y canlynol yn eu lle gan bob asiantaeth a sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i blant/oedolion sydd mewn perygl:

- Ymrwymiad clir gan uwch reolwyr i bwysigrwydd diogelu
- Llinell atebolrwydd glir o fewn y sefydliad ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â diogelu a chyflawniad
- Arferion recriwtio diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu, gan gynnwys gwirio cefndir staff newydd, staff presennol (lle bo'n bosibl), gwirfoddolwyr a darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu.

Mae'n ofynnol i aelodau o'r Bwrdd gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:

Y Bwrdd

- Rhoi blaenoriaeth i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a dim ond anfon dirprwy o dan amgylchiadau eithriadol. Mae rhaid i'r dirprwy fod â'r grym i wneud penderfyniad ar ran ei sefydliad
- Bod yn atebol am raeadru gwybodaeth rhwng eu sefydliadau eu hunain a Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ac i'r gwrthwyneb
- Bod yn gyfrifol am gynrychioli Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg mewn fforymau a phartneriaethau strategol eraill

- Bod yn atebol am gyflawniad ei asiantaeth ei hun mewn perthynas â diogelu ac uwchgyfeirio unrhyw risgiau neu broblemau i'r Bwrdd yn ddi-oed
- Cyfrannu at ddatblygu Cynlluniau ac Adroddiadau Blynyddol y Byrddau
- Rhoi cymorth a chydymffurfio ag unrhyw archwiliad sy'n cael ei gynnal yn ei sefydliad ei hun o effeithiolrwydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg neu ei arferion diogelu
- Cymryd rhan mewn is-grwpiau, grwpiau gorchwyl a gorffen a phrosesau ymgynghori, neu benodi unigolyn o'i sefydliad i wneud hynny
- Tynnu sylw'r Cadeirydd at unrhyw achos o wrthdaro buddiannau rhwng ei swydd gyda Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a'i gyfrifoldebau yn ei sefydliad unigol
- Tynnu sylw'r Cadeirydd at unrhyw bryderon sy'n codi gan aelod o staff ei asiantaeth o'r ffordd cafodd achos ei drafod neu achosion eu trafod

Ei Sefydliad

- Cyfathrebu gwaith y Bwrdd o fewn ei asiantaeth/sefydliad ei hun er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant/oedolion mewn perygl
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn ei sefydliad yn effro i'r angen sydd i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch arferion diogelu
- Bod yn Arweinydd Diogelu ar gyfer ei sefydliad a gyrru'r agenda diogelu yn ei blaen ym mhob partneriaeth a fforwm lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Sicrhau bod cynlluniau gweithredu sy'n ymwneud ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion ar waith yn ei asiantaeth eu hun
- Gallu dylanwadu ar gynllunio strategol ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o fewn ei sefydliad eu hun.

Y Cyhoedd

- Codi ymwybyddiaeth ledled ardal Cwm Taf Morgannwg o'r angen i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl.
- Hyrwyddo ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd yng ngwaith y Bwrdd

Unigolion

- Meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion diogelu, gan ymgymryd â hyfforddiant personol yn ôl yr angen

- Cydymffurfio â gofynion y Ddyletswydd i Hysbysu fel maen nhw wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Datrys Anghytundebau

O bryd i'w gilydd gall anghydfod godi ymhlith aelodau Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg. Mae dyletswydd ar bob aelod i ymddwyn mewn ffordd gadarn a rhagweithiol i ddatrys unrhyw anghydfod. Dylai'r holl aelodau fod yn hyderus wrth herio'r mesurau diogelu sydd ar waith mewn asiantaethau partner os ydyn nhw'n pryderu bod yr arfer yn methu â sicrhau'r deilliannau dymunol.

Dylid mynd ati i ddatrys unrhyw anghydfod yn yr amser byrraf posibl.

ATEBOLRWYDD

Mae gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ddyletswydd statudol i Lywodraeth Cymru wrth gyflawni ei gyfrifoldebau diogelu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Bwrdd Diogelu Cwm taf Morgannwg yn rhannu gwybodaeth ac yn ymgynghori â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol hefyd.

TREFNIADAU ADRODD GWYBODAETH

Bydd pob un o Is-grwpiau'r Bwrdd yn adrodd i'r Bwrdd drwy'r Cydbwyllgor Gweithredol.

Bydd Pwyllgorau Gweithredol MASH, Grŵp Llywio Atal Hunanladdiad a Grŵp Gweithredol y Bwrdd i gyd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd.



AELODAU O'R BWRDD - MIS IONAWR 2023

ENW	TEITL	ASIANTAETH
Lisa Curtis-Jones (Cadeirydd)	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Claire Marchant (Is-Gadeirydd)	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Neil Elliott (Cadeirydd y Cydbwyllgor Gweithredol)	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Jackie Neale	Rheolwr y Gwasanaethau Diogelu Oedolion	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Louise Davies	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Colette Limbrick	Pennaeth Diogelu (Plant) Dros Dro	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Gaynor Davies	Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Annabel Lloyd	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cara Miles	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Gofal yn y Gymuned a Phlant	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Janet Wallsgrove	Cyfarwyddwr y Carchar	Carchar y Parc
Claire O'Keefe	Pennaeth Diogelu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Matthew O'Baid	Meddyg a enwyd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Sarah Bradley	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Richard Hughes	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Lyndon Lewis	Pennaeth Gwasanaeth	Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf
Christa Bonham-Griffiths	Pennaeth Gwasanaeth	Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Pen-y-bont ar Ogwr
Donna Newell	Arweinydd a enwyd ar gyfer Diogelu	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Virginia Hewitt	Nyrs ddynodedig	Carfan Diogelu Cenedlaethol (ICC)
Emma Richards	Pennaeth y Gwasanaeth Prawf	Y Gwasanaeth Prawf
Susan Walker	Prif Swyddog y Gwasanaeth Addysg	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Paul Lewis	Pennaeth y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Angela Edevane	Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Joe Rhys Jones	Prif Reolwr Diogelu Dros Dro	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Taryn Stephens	Pennaeth y Gwasanaethau i Blant	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Jacqueline Davies	Pennaeth y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Laura Kinsey	Pennaeth y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Nicola Echanis	Pennaeth Addysg a Gwasanaethau i Deuluoedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Raeanna Grainger	Rheolwr Grŵp	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Martin Morgans	Pennaeth y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Terri Warrilow	Pennaeth y Gwasanaethau Diogelu Oedolion ac Eiddo Diogel	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Marc Attwell	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Tracey Rankine	Pennaeth Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed	Heddlu De Cymru
Nikki Harvey	Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Lin Slater	Aelod Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Arsylwr)	Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol